CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 6 Mawrth 2017**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies, Bryan Rees, Peter Hazzelby, Mrs A Edwards, C Lewis

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: Dim

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Mrs J Hawkes**

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim

**4. Materion Personol**
Mynegodd y Cyngor ei gydymdeimlad â'r Cyng Hywel Davies a'i deulu ar farwolaeth ei dad. Dymunwyd yn dda i Mrs B Rees ar ôl ei llawdriniaeth. Diolchodd yn Cyng B Rees i'r Cyngor. Diolchodd y Cyng Mrs A Edwards i'r Cyngor am ei ddymuniadau da yn dilyn llawdriniaeth ei gŵr. Dywedodd ei fod nawr yn well ac yn ôl wrth ei waith.

**5. Ceisiadau**
Dim

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
*Ymunodd y Cyng Sirol H Lewis â'r cyfarfod*

Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid derbyn y cofnodion fel rhai cywir. Eiliwyd gan y Cyng P Hazzelby a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | Talai | Am | banc |
|---|---|---|---|
| 6.03.17 | Abacus | Glanhau'r bloc toiledau Chwef 17 | 170.00 |
| | Abacus | Glanhau'r gysgodfan bws | 76.00 |
| | Comisiynydd Gwybodaeth | Diogelu Data | 35.00 |
| | S E Houghton | Gweithio Gartref | 25.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 30.03.17 | S E Houghton | Cyflog Mawrth | 330.18 | AS |

Cynigiwyd: Cyng E Davies, eiliwyd gan y Cyng Iwan Davies, cytunwyd yn unfrydol.
Dywedodd y Clerc y byddai'n ceisio prosesu unrhyw anfonebau/taliadau a fyddai'n dod i mewn cyn diwedd Mawrth ac yn rhoi gwybod amdanynt yng nghyfarfod Ebrill.

*Ffurflen Newid Llofnodwyr*
Roedd y Clerc wedi darparu'r ffurflen ar gyfer y llofnodwyr newydd a byddai'n mynd â hi i'r banc pan fyddai wedi'i llenwi.

*Diweddariad y gyllideb hyd at 06.02.17*
Nodwyd y diweddariad. Dywedodd y Clerc fod Swyddfa Archwilio Cymru mewn gweminar yn ddiweddar wedi awgrymu ei bod yn dderbyniol i Gynghorau Tref a Chymuned gadw hyd at rhwng un rhan o dair a chyfanswm eu hincwm blynyddol wrth gefn. Nodwyd nad oedd Cyngor Llangoedmor yn cadw cronfeydd mawr gan fod y Cyngor yn teimlo bod ei atebolrwydd o ran asedau yn gyfyngedig.

Dywedodd y Cyng Sirol H Lewis y byddai'n gadael y cyfarfod. Aeth y Cadeirydd yn gyflym drwy fanylion Cinio'r Cyngor a fyddai'n digwydd ar 28 Ebrill yng Nghlwb Golff Aberteifi. Darparwyd bwydlen a ffurflen logi gyda chais am ddychwelyd gwybodaeth llogi erbyn wythnos cyn y cinio.

*Gadawodd y Cyng Sirol H Lewis y cyfarfod.*

*HMRC*
Dywedodd y Clerc nad oedd ateb wedi dod hyd yn hyn oddi wrth HMRC ynglŷn â TAW. Nid oedd hi wedi paratoi ffurflen adhawlio TAW oherwydd hyn, a'r ffaith fod y swm yn fras a oedd heb ei hawlio hyd at ddiwedd Ionawr yn llai na'r gofyniad adhawlio o  £100.
PAYE – yn symud ymlaen.

*Diwedd y Flwyddyn*
*Asesiad Risg Ariannol*
Roedd y ddogfen wedi ei hanfon o gwmpas. Cynigiodd y Cyng H Davies y dylid ei derbyn ac eiliwyd gan y Cyng K Symmons, a chytunwyd yn unfrydol.

*Cofrestr Asedion*
Dywedodd y Clerc, ers anfon y drafft o gwmpas, ei bod wedi ychwanegu plac Sul y Cofio a chyfarpar y goleuadau Nadolig newydd. Dywedodd fod y parc ceir wedi'i ychwanegu am werth o £1 nes byddai wedi gallu cael cyngor am y prisiad cywir. Cadarnhaodd y Cyngor mai'r eitem wedi'i rhestru fel 'yr ail hysbysfwrdd hanes' oedd y paneli gwybodaeth yn adeilad y Mileniwm.
Cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid derbyn y gofrestr asedion. Eiliwyd gan y Cyng P Hazzelby a chytunwyd yn unfrydol.

*Penodiad Archwiliad Mewnol*
Cyflwynodd y Clerc lythyr oddi wrth Mrs J Jamison ynglŷn â'i phenodiad yn Archwilydd Mewnol. Cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid ei phenodi. Eiliwyd gan y Cyng K Symmons a chytunwyd yn unfrydol.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â Mrs Jamison GAN: Y Clerc

*Etholiad*
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr y byddai sesiwn gefndir i ymgeiswyr, gan Gyngor Sir Ceredigion, ar 9 Mawrth am 5.30pm yn Felin-fach. Os byddai'n cael unrhyw wybodaeth bellach am yr etholiad byddai'n ei hanfon at y Cynghorwyr.

*Hen Wefan*
Roedd y Cyng C Lewis wedi edrych ar yr hen wefan ond wedi gweld na allai ei thynnu i ffwrdd. Roedd wedi diweddaru'r wybodaeth gyswllt arni ac wedi dileu'r hen restr o Gynghorwyr. Gofynnodd y Clerc a allai ddileu unrhyw hen gofnodion er mwyn osgoi dryswch.
**GWEITHREDU:** Dileu'r hen wybodaeth GAN: Cyng C Lewis

## 9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

*Cais am lwybr troed rhwng y Saith Seren a Flambards*
Nodwyd nad dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor gael cais am lwybr troed fel hyn. Roedd y broblem yn parhau fod tu blaen yr adeiladau y gellid effeithio arnynt, ar rai darnau o'r llwybr y gofynnwyd amdano, yn fach iawn a byddai'n afresymol cael llwybr troed ar eu traws/drwyddynt. Nodwyd hefyd y byddai cost cael pont ffordd yn sylweddol. Cytunwyd i gysylltu â CS Ceredigion i ofyn am gael cyfarfod ar y safle i benderfynu a oedd unrhyw lwybrau eraill posibl a hefyd i ddweud eto fod angen llwybr troed o Aberteifi i Lechryd.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

*Baw Cŵn*
Nodwyd bod mwy o faw cŵn. Cytunwyd mai enwi a chywilyddio, ac yna erlyn, oedd yr unig ddewisiadau. Byddai arwyddion newydd yn cael eu gosod gyda'r geiriad Saesneg: 'Owners of dogs found fouling in this area will be named, shamed and prosecuted'. Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig i drefnu gwneud yr arwyddion.
**GWEITHREDU:** Anfon y geiriad GAN: Y Clerc

Soniwyd hefyd fod sbwriel o nwyddau'n cael eu prynu yn y modurdy yn crynhoi ar y cae chwar. Wrth reswm, ni ellir disgwyl i'r modurdy fod yn gyfrifol am y sbwriel. Trafodwyd gosod arwydd Saesneg 'Please dispose of rubbish carefully – bin available by seats'.

*Blychau Blodau*
Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi holi am amrywiol ddyfynbrisiau i lenwi a phlannu'r blychau blodau. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan Ganolfan Garddio Trefhedyn lle byddai cafn 1.5 metr yn costio £50 i'w lenwi yn y lle cyntaf, ac yna byddai ei blannu yn yr haf a'r gaeaf yn costio £38 am bob blwch.

Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd y Felin-goed wedi cysylltu ag ef hyd yma, ond byddai'n paratoi 'rhestr dorri'. Cytunwyd, pe bae'r Felin-goed yn methu â noddi'r prosiect ddim mwyach, y byddai'r Cyngor yn talu costau'r defnyddiau.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r Felin-goed GAN: Y Clerc

*Plât enw – Green Hill*
Roedd CSC wedi cadarnhau bod arwydd newydd wedi'i archebu ac y dylai gael ei osod i fyny cyn diwedd Mawrth. Sylwodd y Cadeirydd fod arwydd newydd eisoes wedi ei osod i fyny ar ffordd Cwm-cou.

Tynnodd y Cyng C Lewis sylw at y cais gan CSC am sylwadau am newid arfaethedig yn llwybr troed rhif 74/36 yng Nghwm-march, Pen-parc. Cytunwyd i gefnogi'r gwyriad.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

10. Amwynderau

*Toiledau Cyhoeddus*
Roedd y plwmwr wedi rhoi dyfynbris o £120 am adnewyddu'r tapiau, ond wedi cytuno i edrych ar y tapiau roedd CSC yn eu hargymell.

*Gwaith trydan*
Roedd y Clerc wedi gofyn am i'r gwaith trydan gael ei wneud gydag anfoneb a chais am daliad yn y flwyddyn ariannol hon.

*Maes Chwarae - Siglen*
Dywedodd y Clerc fod y contractiwr yn ceisio cael seiliau o faint priodol ar gyfer y siglen cyn cael dyfynbris. Roedd y Cyng C Lewis yn garedig wedi cyflwyno cynllun ar gyfer seiliau a byddai'n gymharol hawdd eu creu. Byddai hwn yn cael ei anfon at y contractiwr gan ei wahodd i gysylltu â'r Cyng C Lewis i gael rhagor o wybodaeth a mesuriadau.
**GWEITHREDU**: Symud hwn ymlaen GAN: Y Clerc

Dywedodd y Clerc y byddai seddau siglen newydd sylfaenol yn costio rhwng £17 a £30.

**11. Prosiectau'n Parhau**

*Llythyr Newyddion - gohiriwyd*

*Gardd Lysiau Gymunedol*
Dywedodd y Clerc ei bod wedi gofyn i'r dyn oedd â diddordeb mewn datblygu'r prosiect hwn am rai ffotograffau o'r ardal, ond nid oedd wedi cael y rheiny hyd yma.

**12. Digwyddiadau**
*Cinio'r Cyngor – 28 Ebrill 2017*
Cynhwyswyd yn gynharach yn yr agenda. Nodwyd y byddem yn gofyn i Gyngor y Ferwig am ganiatâd i'r Cadeirydd wisgo Cadwyn ei Swydd.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r Ferwig GAN: Y Clerc

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim

**14. Gohebiaeth / gohebiaeth e-bost - nodwyd**
Rhaglen Trawsnewid y GIG
Adroddiad Blynyddol PACGA
Bwletin Un Llais Cymru 2017
Llythyr Newyddion Mabwysiadu Llwybrau
Cyfarfod Ymgynghorol 2016 - 23/11/2016
Cyswllt Clercod a Chynghorau
Comisiwn Ffiniau Cymru AROLWG 2018 – AIL GYFNOD YMGYNGHORI
Llythyr Newyddion Egnioli Cymru – Chwefror 2017 – Newyddion y sector, digwyddiadau a chyfleoedd tendro
Swyddogol: Penodi Cadeiryddion i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru
4/3/17 10.30am Agenda Cefn Gwlad a RADIO BECA Cyngor Tref Aberystwyth

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Mynegodd y Cyngor ei ofid am y pellter roedd yn rhaid i gynghorwyr deithio i gymryd rhan yn hyfforddiant Un Llais Cymru. Gofynnodd pam na ellid darparu cyrsiau hyfforddiant ar-lein. Dywedodd rhai Cynghorwyr ei bod yn well ganddynt gael hyfforddiant mewn grwpiau wneb-yn-wyneb, ond cytunwyd y dylid edrych ar bob dewis. Dywedodd y Clerc fod mater hyfforddiant ar-lein wedi'i godi gydag Un Llais Cymru, ond nid oedd y corff i'w weld yn rhy awyddus i ddilyn y llwybr hwnnw. Gobeithiai'r Cyng Mrs A Edwards y byddai hyfforddiant Dull Gweithredu o leiaf ar gael yn lleol.

Mynegwyd pryder fod modurdy i'w weld wedi agor yn Llechryd a'r fynedfa'n agor ar gyffordd beryglus.
GWEITHREDU: Ymgynghori â CSC GAN: Y Clerc

Mynegodd y Cyng I Davies ei bryder am y fynedfa gul i Preseli View. Dywedodd fod y llain borfa wedi'i sarnu gan gerbydau'n gyrru drosti i fynd heibio'r cornel cul.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng B Rees fod yr Hen Eglwys, ar draws pont yr afon, wedi'i fandaleiddio eto, ac roedd yn dyfalu a oedd unrhyw un wedi clywed unrhyw beth yn y pentref. Dywedodd nad oedd yr heddlu wedi cael gwybod am y fandaliaeth ac mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael. Dywedodd y Clerc y dylid rhoi gwybod i'r heddlu am bob achos gan fod niferoedd troseddau'n effeithio ar yr adnoddau plismona sy'n cael eu darparu mewn ardaloedd.

Roedd y Cyng P Hazzelby wedi dod â map roedd wedi gofalu amdano ers blynyddoedd. Roedd y map yn dangos y degwm a delid i Reithor Llangoedmor ym 1848. Cytunwyd y dylid cysylltu ag Archifau Ceredigion gan fod y map mewn cyflwr bregus. Cytunodd y Cyng B Rees i ofalu am y map nes y gellid cysylltu â'r Archifau.
**GWEITHREDU:** Cysylltu â'r Archifau GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng Mrs A Edward fod arddangosfa ar 'Hen Lechryd' i gael ei chynnal ym mis Mehefin, a gofynnodd a allai'r map gael ei ddangos. Tynnodd y Cyng C Lewis luniau oherwydd teimlid gallai'r map gwreiddiol fod yn rhy fregus.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf** – 3.04.17 - 7.00pm

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm*